## Cofnodion y cyfarfod diwethaf

26 Mehefin 2019 – 12.30-3.30,
Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel

| Yn bresennol: | |
|---|---|
| **Bethan Sayed AC (Cadeirydd)** | Gorllewin De Cymru/Plaid Cymru |
| **Natasha Withey** | Gofal |
| **Ewan Hilton** | Gofal |
| **Mike Hedges AC** | Dwyrain Abertawe/Llafur Cymru |
| **Sandy Bridges** | Gofalwr |
| **Menna Jones** | Haen 3, Arweinydd Clinigol Tîm Anhwylderau Bwyta Caerdydd a'r Fro/BIP Cwm Taf |
| **Jo Whitfield** | Beat |
| **Wendy Clarke** | Arweinydd Arbenigol ar gyfer Anhwylderau Bwyta, BIPAB |
| **Dr Natalie Chetwynd** | Seicolegydd Clinigol, Clinig Elizabeth Williams |
| **Manon Haf Lewis** | |
| **Carole Phillips** | |
| **Carl Shortland** | WHSSC |
| **Matt Williams** | Swyddfa Lee Waters |
| **Donna Mason** | Mental Health Matters Wales |
| **Michaela Moore** | Mental Health Matters Wales |
| **Sara Hexter** | |
| **Danielle Carter** | Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan |
| **Oliver John** | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |
| **Daniel Jones** | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |

| Croeso ac ymddiheuriadau | Camau gweithredu |
|---|---|
| Croesawodd Bethan Sayed AC bawb i gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta.<br><br>**CAFWYD:**Ymddiheuriadau gan aelodau absennol<br><br>- Llyr Gruffydd AC<br>- Gerrard McCullagh<br>- Janet a Don Ribeiro<br>- Toni Hoefkens<br>- Helen Missen<br>- Jacinta Tan | |
| **Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | **Camau gweithredu** |
| **CYMERADWYWYD**<br><br>Cofnodion y cyfarfod diwethaf. | **NW** i'w hanfon at y Swyddfa Gyflwyno |
| **Adolygiad o'r Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta: y wybodaeth ddiweddaraf** | **Camau gweithredu** |
| Gofynnodd **BS** am y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad ynghylch Anhwylderau Bwyta.<br><br>Nododd **EH** fod adroddiad yr Adolygiad o Wasanaethau wedi cael ei anfon at y Gweinidog ym mis Tachwedd ond bod y grŵp yn aros am gynnydd, sy'n achosi pryder a rhwystredigaeth i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r broses.<br><br>Cododd **MJ** bryderon ynghylch cynnydd yr adolygiad gan egluro bod ei gylchrediad yn cael ei reoli'n dynn iawn, a bod y rhesymeg dros y camau nesaf yn aneglur o hyd.<br><br>Nodwyd bod yr adroddiad yn aros i gael ei gymeradwyo cyn ei ddychwelyd at Lywodraeth Cymru;<br><br>Cytunwyd bod angen rhoi pwysau er mwyn cadw'r momentwm; mae llawer o bobl nad ydynt yn gwybod am yr adolygiad na'i gynnwys, sef y bobl y bydd yn effeithio arnynt. | |

| | |
|---|---|
| Dywedodd **MJ** wrth y grŵp fod arian o'r Gronfa Drawsnewid wedi cael ei ddyrannu yn ddiweddar i fyrddau iechyd ar gyfer anhwylderau bwyta, gan nodi nad yw hyn wedi cael ei gydlynu â'r adolygiad, sy'n gwneud y broses yn un anhrefnus a digyswllt. | |
| Bellach mae dwy broses gyfochrog ac mae'r dull digyswllt yn peri ansicrwydd a phryder ymhlith defnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd. | |
| Mae'r ansicrwydd a'r cyfathrebu cymysg ynghylch y cyllid ychwanegol a chynnydd yr adolygiad yn codi risg na fydd anhwylderau bwyta'n cael dim o'r gronfa drawsnewid. | |
| Nododd **MJ** fod angen i'r adolygiad gael ei rannu'n ehangach; mae'n bwysig cynnwys clinigwyr yn ogystal â rheolwyr byrddau iechyd. | |
| Nododd **DJ** fod Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi cymryd rhan yn yr adolygiad ym mis Medi ond nad oedd yr adroddiad terfynol wedi cael ei gyflwyno. | |
| Ychwanegodd **DJ** fod y coleg yn barod i helpu i gylchredeg adroddiad yr adolygiad yn ehangach. | Bydd **EH** a **JW** yn drafftio llythyr at y Gweinidog ac yn rhannu negeseuon â'r grŵp |
| Mynegodd **ML** rwystredigaeth a phryder cyfranogwyr o'r ymgynghoriad cyhoeddus flwyddyn yn ôl sy'n aros i glywed y diweddaraf am y broses. | |
| Cytunodd **EH** a **JW** i ddrafftio llythyr ar ran y Grŵp Trawsbleidiol, a byddant yn rhannu templed â'r grŵp sydd am fynegi eu pryderon a'r angen am i'r adolygiad wneud cynnydd a chael ei gymeradwyo. | |
| Nododd **MH** y gall llythyrau ymgyrchu fod yn ddefnyddiol i dynnu sylw at bwysigrwydd y mater i'r rhai dan sylw a nododd fod angen nodi enwau a chodau post unigolion. | Beat i rannu'r neges derfynol |
| Gofynnodd **BS** a oes cronfa ddata o'r bobl sydd wedi ymwneud â'r ymgynghoriadau cyhoeddus, gan nodi y byddai'n ddefnyddiol rhannu templed o lythyr â'r cysylltiadau hynny. | |
| Ychwanegodd **JW** y gallai Beat rannu'r neges er mwyn ehangu ei chyrhaeddiad trwy ymgyrch | |

| | |
|---|---|
| Cyfeiriodd **BS** at Adolygiad Donaldson a gofynnodd a oedd anhwylderau bwyta yn y cwricwlwm diwygiedig.<br><br>Nododd **CP** fod ymyriadau yn digwydd mewn ysgolion, ond dim ond yn y rheini a oedd yn rhan o'r prosiectau peilot - nid oedd pob grŵp yn elwa, am nad oedd y peilot ar gael ym mhobman.<br><br>Nododd **BS** fod angen safoni ar draws y cwricwlwm a bod angen i wersi gwerthoedd ac egwyddorion craidd fod ar gael i bob ysgol. | |
| **Ysgrifenyddiaeth** | |
| Hysbysodd **EH** y grŵp o'r trafodaethau blaenorol rhwng Gofal a Beat am ddyfodol yr ysgrifenyddiaeth. Mae Gofal ar fin cychwyn strategaeth a brand newydd gyda llai o ffocws ar faterion cyhoeddus.<br><br>Cytunodd **JW** y byddai'n briodol ar yr adeg hon i Beat ddarparu gwasanaeth yr Ysgrifenyddiaeth.<br><br>Diolchodd **BS** Gofal am eu holl waith caled a'u cyfraniad i waith y Grŵp<br><br>Trefnwyd cyfarfod i Gofal a Beat drafod y trosglwyddo a'r cynlluniau'n fwy manwl. | Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cael ei throsglwyddo i Beat.<br><br>EH a JW i drafod y dasg o drosglwyddo a dweud wrth y grŵp am fanylion perthnasol. |
| **Unrhyw fater arall** | |
| Cyhoeddi prosiect newydd: **DM** ac **MM** o Mental Health Matters Wales a gyhoeddodd brosiect newydd yn y Gerddi Botaneg sydd wedi cael cyllid i gynnal digwyddiad diwrnod bob wythnos ar gyfer pobl sydd ag anhwylderau bwyta a fydd yn cynnig dull ac amgylchedd therapiwtig. Hefyd, fe drefnir noson i ofalwyr unwaith y mis.<br><br>Gofynnodd **BS** am ragor o wybodaeth i'r grŵp am y prosiect yn y cyfarfod nesaf. | |